


Cenarth



Cynllun Lluio Lleoedd

Gallwch weld y cynllun hwn ar

<https://placemaking-ceredigion.wales/cy/>

Ile gallwch ddysgu am eich cymuned, darllen straeon, gwyllo ffilimau byr a gwrando ar bobl leol yn siarad am yr hyn mae eu pentref yn ei olygu iddyn nhw heddiw, eu hatgofion o'r gorffennol a'u gobeithion am y dyfodol.



Diben

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi pwyslais cryf ar gydweithio â'i gymunedau a'i lleodd.

Ar ôl datblygu Cynlluniau Lle ar gyfer rhai o brif drefi'r sir rai blynyddoedd yn ôl, mae'n canolbwyntio bellach ar helpu cymunedau gwledig, llai.

Y tair cymuned ar ddeg yw:

Aberporth/Parclyn, Bow Street, Cenarth,
Felinfach/Ystrad Aeron, Llanarth, Llanilar, Llan-non,
Llanrhystud, Penrhyncoch, Pontarfynach,
Pontrhydfendigaid, Talybont, Y Borth

Mae'r Prosiect Llundio Lleodd wedi helpu cymunedau i ddeall eu hanghenion, llunio gweledigaeth a chanfod blaenoriaethau, a manylir ar hyn yng [ngwefan](#) dogfen y cynllun Llundio Lleodd unigryw hwn.

Hon yw dogfen y cynllun Llundio Lleodd.

Mae'r cynllun wedi cael ei lunio trwy ddeall eich cymuned a chreu portread bro a thrwy gyfres o weithgareddau ymgynghori wyneb yn wyneb a digidol.

Gweithgarwch allweddol

Portread Bro

Mae hwn wedi creu adnodd lle gall trigolion a grwpiau lleol ganfod ffeithiau a ffigurau allweddol am eu cymuned megis poblogaeth, tai, iechyd, gweithgarwch economaidd a mwy. Mae'n ein galluogi i ddeall pa siopau a chyfleusterau lleol sydd i'w cael yn eich pentref a sut mae pobl yn symud o gwmpas.

Stori eich Cymuned

Fel rhan o'r prosiect, cynigiwyd cyfres o gyfleoedd i'r cymunedau roi eu barn ar anghenion eu pentrefi a syniadau ar eu cyfer. Roedd cymysgedd o sesiynau cymunedol wyneb yn wyneb ac ymgynghori digidol yn sicrhau bod cymaint â phosibl o aelodau'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan.

Wyneb yn Wyneb

Trefnwyd sesiwn alw-heibio gymunedol ym mhob un o'r 13 ardal cyngor cymuned, mewn partneriaeth â chynghorwyr lleol a lleoliadau cymunedol. Roedd pob sesiwn yn parhau am tua saith awr ac wedi ei chynllunio fel digwyddiad anffurfiol agored i bawb lle gallai trigolion ddod draw unrhyw adeg o'r dydd i rannu eu barn trwy amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol. Cafodd y digwyddiadau hyn eu hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, poster

printiedig a rhwydweithiau e-bost. Roedd fformat y digwyddiad yn cynnwys:

- Cyflwyniad byr i'r fenter Llunio Lleoedd, yn esbonio ei diben, amcanion, etc.
- Cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i asesu pa mor dda mae eu pentref yn ei wneud mewn meysydd fel trafnidiaeth, cyfleusterau etc, gan ddefnyddio partrwm graddio syml.
- Gosod pinnau ar fap mawr o'r pentref i ddangos pryderon allweddol a syniadau'n ymwneud â lleoliadau, adeiladau a llecynnau allweddol.
- Trafodaethau agored i annog mynychwyr i rannu syniadau, pryderon a dyheadau ychwanegol, y tu hwnt i weithgareddau eraill.
- Cyd-drafod â'r tri artist a'u cyfryngau creadigol i drafod y pentref a'i ymdeimlad o le.

Digidol

Rhoddodd y prosiect ffyrdd digidol hefyd i bobl gyflwyno sylwadau, gan ddarparu offeryn mapio ar-lein, arolwg, a'r dewis i anfon sylwadau trwy e-bost.

Daethpwyd â'r holl sylwadau hyn at ei gilydd mewn adroddiad o'r ymgynghoriad.

Gweledigaeth a Syniadau'r Gymuned

Yn dilyn dadansoddi data a ffigurau, cyfarfod trigolion a grwpiau lleol mewn sesiynau galw heibio yn y pentrefi a darllen sylwadau digidol pobl, roedd y sgysiau cymunedol yn helpu'r prosiect i gyrraedd y dasg o awgrymu syniadau ar gyfer pob pentref.

Cafodd y syniadau hyn eu rhannu'n ddigidol gyda'r gymuned leol trwy rannu map syniadau rhyngweithiol a oedd yn ceisio barn ar syniadau a oedd yn gysylltiedig â lleoliadau penodol. Gofynnwyd hefyd i bobl a grwpiau lleol am syniadau nad oedd yn gysylltiedig â lleoliadau penodol, ee gwella band eang digidol, yn ogystal â rhoi cyfle i bobl wneud sylwadau cyffredinol ar y prosiect hwn.

Mae'r holl sylwadau lleol o'r sesiynau galw-heibio cymunedol a'r mapiau syniadau a'r arolwg digidol wedi helpu'r cynllun hwn ar gyfer eich cymuned. Diolch i'r rheini sydd wedi helpu i lunio'r cynllun hwn.

Os oes arnoch eisiau gweld proffil eich ardal leol, stori eich cymuned, gan gynnwys gwaith y tri artist ar ymdeimlad eich pentref o le, ewch i:




<https://placemaking-ceredigion.wales/cy/>

Detholiad o Mowing Lawns – Lawn Atgofion, Hattie Morrison

“To have a village that skirts the water it sits around. To meet the people whose grandparents rowed on the boats and farmed on these beds. To hear the tales. To walk the stone on the bridge – it is easy to see the history of this place and feel the stories that came before. But what of now? What of tomorrow? What is happening here? The legends and tales of Cenarth bob on the surface of the village like cwrwgl boats on the river – a river that runs wild and wide.”¹

¹ Detholiad o *Mowing Lawns, Lawn Atgofion* gan Hattie Morrison 2026. I ddarllen neu wrando ar fonolog llawn Hattie Morrison am Cenarth, [cliciwch yma](#)




2

² Gwaith celf a grewyd gan Meinir Mathias a phlant ysgol lleol yn ystod sesiwn galw-heibio Cenarth, Rhagfyr 2025

Gweledigaeth

Mae Cenarth yn bentref lle mae treftadaeth, tirwedd a bywyd cymunedol yn dod at ei gilydd. Caiff ei straeon a'i draddodiadau eu dathlu'n amlycach, tra bod lleoedd a gafodd eu hadfywio – fel y maes chwarae a'r capel – yn dod â phobl at ei gilydd. Mae gofal am Afon Teifi a'i glannau wedi gwella ansawdd amgylchedd y pentref, cryfhau gwytnwch amgylcheddol, a chefnogi llesiant y gymuned.

Blaenoriaethau a Themâu




Dyheadau

Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Cyfleusterau Cymunedol a Chartrefi	1.	Gwella'r maes chwarae oddi ar Glan-yr-afon gydag offer chwarae newydd a ffensys.	Cyllid cyfalaf canolig	Cyngor Cymuned Beulah			
	2.	Gwella'r festri yng Nghapel Cenarth i alluogi mwy o ddefnydd gan y gymuned ee gwell Wi-Fi, clyweledol ac offer ar gyfer gweithgareddau aml-genhedlaeth.	Cyllid cyfalaf bach	Capel Cenarth			
	3.	Cadw'r toiledau cyhoeddus yn agored ar yr A484 fel prosiect partneriaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion. Archwilio dichonoldeb trosglwyddo ased cymunedol ac opsiynau i gynnal mynediad a glanhau a chynnal a chadw rheolaidd a defnyddio ynni	Cyllid refeniw Grant cyfalaf – atgyweirio a defnyddio ynni adnewyddadwy ac ailgylchu dŵr	Cyngor Cymuned Beulah			

		adnewyddadwy a chynaeafu dŵr glaw. ▪ Darparu pwynt gwybodaeth i dwristiaid a mynediad i'r ardd feddwlgarwch islaw.					
	6.	Galluogi codi tai gwledig ar y safle a ddyrannwyd sy'n diwallu anghenion lleol ac yn integreiddio â'r gymuned leol yn ffisegol ac yn gymdeithasol.	Dan arweiniad y sector cyhoeddus / preifat	Datblygwr / darparwr tai			
	10.	Archwilio ffyrdd o greu llecyn cymunedol o fewn lleoliadau presennol yn y pentref a fydd yn cefnogi bywyd cymunedol a hyfywedd adeiladau.	Cydgysylltu lleol Astudiaeth ddichonoldeb	Cyngor Cymuned Beulah			

Symud	4.	Gwella pyrth i mewn i'r pentref sy'n helpu cyhoeddi'r pentref a lleihau cyflymder traffig trwy ddefnyddio mynedfeydd pyrth, planhigion ar ochrau ffyrdd a gweithio ar ymgyrch gyda'r ysgol gynradd leol.	Mân weithiau cyfalaf Cynllun plannu cymunedol	Cyngor Cymuned Beulah / Cyngor Sir Ceredigion			
	7.	Gwella profiad y cerddwr ar ac o amgylch pont Cenarth mewn ffordd sy'n codi ymwybyddiaeth o gerddwyr yn y gerbyttfordd, ee newidiadau yn arwyneb y gerbyttfordd ac atgyfnerthu trefniadau cwrteisi.	Gweithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Beulah / Cyngor Sir Ceredigion / Cyngor Sir Gaerfyrddin			



Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Symud	11.	Darparu lle i gadw beiciau ac offer (gorsaf fecanyddol beiciau / gwefru e-feiciau) mewn lleoliad canolog a gweladwy a fydd yn cefnogi trigolion lleol a beicwyr dydd.	Mân weithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Beulah / Cyngor Sir Ceredigion			
	12.	Canfod safleoedd ar gyfer darpariaeth parcio oddi ar y stryd yn y pentref, yn bennaf at ddefnydd ymwelwyr.	Astudiaeth ddichonoldeb	Cyngor Cymuned Beulah / Cyngor Sir Ceredigion			
Yr Amgylchedd Lleol	8.	Hyrwyddo teithiau cerdded lleol ar hyd Afon Teifi tuag at Troed-y-rhiw-Sion a chreu llwybr cylchol gydag arwyddion a map o'r toiledau cyhoeddus.	Mân weithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Beulah / Cyngor Sir Ceredigion / Tirfeddianwyr			
	9.	Rheoli Afon Teifi. Cefnogi Cynllun y Bobl ar gyfer afon Teifi gyda champau gweithredu'n ymwneud â i) sicrhau bod yr holl hawliau tramwy cyhoeddus yn hygyrch ac yn cael eu rheoli'n iawn, ii) rheoli rhywogaethau goresgynnol, megis balsam Himalayaid a chlymog Japan, iii)	Rheoli Gweithiau cyfalaf Arallgyfeirio	Aml-sefydliad			

		creu hynny â phosibl o gynefinoedd byd natur gan fynd i'r afael hefyd â phroblemau'n ymwneud ag ansawdd dŵr, llifogydd a mynediad. Gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i gyflawni gwaith adfer ar lefel dalgylchoedd ar hyd afon Teifi a'i hisafonydd.					
	13.	Datblygu deunydd dehongli treftadaeth ar adeiladau a safleoedd hanesyddol, a straeon ledled y gymuned a'u hyrwyddo'n ffisegol ac yn ddigidol.	Mân weithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Beulah Trigolion lleol			
Hyrwyddo'r Gymuned	14.	Datblygu digwyddiad cymunedol sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn dathlu traddodiad, stori, neu weithgaredd hamdden/diwydiant lleol.	Cymunedol / amser gwirfoddolwyr Cyllid refeniw	Cyngor Cymuned Beulah Grwpiau a thrigolion lleol			
	15.	Datblygu gwefan gymunedol sy'n dathlu bywyd yng Nghenarth, rôl y cyngor cymuned, dangos beth sydd ymlaen, a gwybodaeth leol arall.	Cyllid refeniw	Cyngor Cymuned Beulah			

